Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter

CYMUNED LLANPUMSAINT COMMUNITY

yn cyflwyno / presents

ras hwyald
duck race

Gwisgo Lan
Fancy Dress

to start with the letter
i ddechrau gyda'r llythyren

A

ELW TUAG AT EGLWYSYSGOL, PARC A NEUADD LLANPUMSAINT
PROCEEDS TOWARDS LLANPUMSAINT SCHOOL, CHURCH, PARK AND HALL

DIWRNOD HWYL

.....

FAMILY FUN DAY

1-5YP : DYDD SADWRN MEHEFIN 25AIN

1-5PM : SATURDAY JUNE 25TH

BWYD/FOOD HWYL/FUN GEMAU/GAMES A LLAWER MWY/& MUCH MORE

am ragor o wybodaeth ynglyn ar diwrnod cysylltwch a
parcllanpumpark@gmail.com for further information about the day

bbq

@ PARC LLANPUMSAINT PARK

cyfarfod cerbyd
clasurol
classic auto
meet

Llanpumsaint 100 Club 2022/23 - Members

Clwb 100 Llanpumsaint 2022/23 - Aelodau

Number Rhif	Name Enw
001	John Richards
002	Lewis Richards
003	Eirlys Lloyd
004	Bob Jameson
005	Matthew Jameson
006	Mo Jameson
007	Sarah Moore
008	Rosie Frewin
009	Sharon Frewin
010	Valerie Langham
011	Becky Icke
012	Dave Icke
013	Bowls Club
014	Becka Dufty
015	Andy & Lisa Williams
016	Beth Thomas
017	Lesley Hargreaves
018	Megan Eldred
019	Rhys Eldred
020	Dafydd Jones
021	Delyth Brown
022	Will Fitzsimon
023	Rhianydd Jones-Evans
024	Alun Stedman
025	Maria Stedman
026	Brian Smethurst
027	Carolyn Smethurst
028	Ann Wyke
029	Dafydd Charles
030	Delyth Charles

Number Rhif	Name Enw
031	Barbara Glossop
032	Margaret Brown
033	Jill Edwards
034	Ann Jones
035	Pamela Jones
036	Dewi Jones
037	Emma Clift
038	Lisa Clift
039	Dewi & Luned Davies
040	Ray Davies (Delfryn)
041	Lyn Henstredge
042	Nick Henstredge
043	Marged Davies
044	Grant Davies
045	Nivina Davies
046	Danny Davies
047	Diane Lee
048	Peter Lee
049	Arwel Nicholas
050	Elsie Jones
051	Dave Robinson
052	Vi Robinson
053	Derick Lock
054	Valerie Lock
055	John Francis
056	Heledd Jones
057	Mathew Jones
058	Becki Harris
059	Kevin Mably
060	Dorrien & Mair Thomas

Number Rhif	Name Enw
061	Lyn & Neris Thomas
062	Sandy Mather
063	Llew Thomas
064	Dylan Jones
065	Meinir Jones
066	Rhodri Jones
067	Irene Davies
068	Roz Evans
069	Marlene Wareham
070	Gordon & Barbra Cable
071	Dexter Penfold
072	Ollie Penfold
073	Dave Hume
074	Dee Tozer
075	Keith Tozer
076	Huw Williams
077	Kathy Williams
078	Jonny Evans
079	Lyn Evans
080	Paul & Juliet
081	Ray Davies (Brackla)
082	Shirley Davies
083	Gary & Tanya
084	Brian Taplin
085	Janet Taplin
086	Jean Andrews
087	John & Carolyn Atkinson
088	Gwyneth Ayers
089	Ian Ayers
090	Cath Vimpany

Number Rhif	Name Enw
091	Donna Thomas
092	Eirian Powell
093	Sandra Powell
094	Lee Davies
095	Eirian Williams
096	Bryan Davies
097	Sally James
098	Stuart James
099	Diane Thomas
100	Dewi & Luned Davies
101	Dewi & Gwen Thomas
102	Wayne Goman
103	Aaron Jones
104	Lisa Jones
105	Hazel Thomas
106	Darrell & Sara Ward
107	Becky Duffty
108	Helen Duffty
109	Helen Hastings
110	Anji Henderson
111	Clare Bishop
112	Colin Griffiths
113	Carolyn Griffiths

If you would like to join,
it's not too late, please e-mail:
llanpumsaint100club@gmail.com

Os hoffch ymuno, nid yw'n rhy hwyr,
anfonwch e-bost at:
llanpumsaint100club@gmail.com



Llais y Llan Mehefin 2022

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 mis Gorffennaf 2022

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT
COEDWIG GORLLEWIN BRECHFA




BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND


Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan



Rhagoriaeth gadael y gwair dyfu
(Marlene Wareham)



Y barcud coch yn bwydo
(Ray Davies)



Amser gadael cartref
(Sally James)



Cynnwrf yr etholiad
(Marlene Wareham)

Cyngor Cymuned Llanpumsaint


Newyddion da. Etholwyd y canlynol i'n cynrychioli ar y Cyngor am y bum mlynedd nesaf - kumi Ariyadasa, Clare Bishop, Dylan Jones, Derick Lock ac Ann Petitt. Cynhelir cyfarfod cyffredinol yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher 8fed o Fehefin am wyth o'r gloch gyda chroeso i bawb sydd â diddordeb.

Digwyddiadau

Gorffennaf 16eg 2022 Bore Coffi a stondinau yn y Neuadd Goffi am 10 o'r gloch hyd ddeuddeg. Yr elw tuag at Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gar 2023.

Digwyddiadau i ddod: Robbie Williams Noson Tribute yn 22 mis Hydref.

Bowlio Dan-do Llanpumsaint a Nebo



Daeth y tymor i ben ag hamdden haelionus i'n haelodau. Bu'n wyth mis eithaf heriol oherwydd cyfyngiadau newidiol y Firws, ond fe fwynhawyd y bowlio unwaith eto wedi wyth mis o segurdod. Canlyniadau cymysg a gafwyd i'n gadael gyda 4 buddugoliaeth, un yn gyfartal a cholli tair. Rhaid llongyfarch ein capten Aled Edwards a Catrin Williams am gynrychioli Sir Gar mewn cystadleuaeth ag Abertawe, Trefaldwyn, Ceredigion a Sir Benfro.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30 yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna

hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

Gwyn Nickolas yw enillydd Tlws Cofiant Syr T H Parry Williams eleni

Mae hyn mewn cydnabyddiaeth o'i waith gwirfoddol "wedi ysbrydoli cenedlaethau o ieuenctid yn ei filltir sgwâr am dros hanner canrif a mwy". Dyfarnir y wobr yn flynyddol i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn eu hardal gyda phwyslais arbennig a'r ieuenctid.

Dywed yr Eisteddfod i waith a chyfraniad Gwyn " .. ddylanwadu ar genedlaethau o ieuenctid lleol" wrth iddo " eu cymorth gyda gwaith damcaniaeth cerddorol, eu dysgu i chwarae piano a chanu". Cefnogodd Gwyn ganuoedd ohonynt dros y blynyddoedd gan gynnwys ysbrydoli corau Ysgol Bro Myrddin, hyfforddi'r Ffermwyr Ifainc cyn cystadlu a rhoi help llaw gyson i Ysgol Llanpumsaint. Ar hyn o bryd mae'n diwtor dysgwyr hyn gyda'r Gymraeg dan adain Coleg Aberystwyth.

Ymuna Llais y Llan a phawb arall i estyn llongyfarchiadau gan ddymuno'r gorau oll iddo wrth dderbyn y wobr yn Eisteddfod Tregaron eleni.

Alison Sharpe

Her Coginio'r Haf

Diolch yn fawr i bawb wnaeth ein Ffair Gefn Car a'r Dydd Agored yng Nghlafdy Skanda Vale Saron ym mis Mai. Bu'n wefr cael shwd gynnwrf yng ngherddi'r lle unwaith eto, ac rydym yn awyddus i gynnal y brwdfrydedd mewn safle mor odidog i rannu/r profiad gydag eraill. Cynhelir ein Dydd Agored Cenedlaethol nesaf ar Orffennaf 16eg o 11.00 y bore hyd 4.30 yp, ond rydym yn barod i



Gerddi Skanda Vale

dywys pobl o gwmpas ar adegau eraill. Yn y cyfamser mae ein sylw pennaf tuag at y Gegin, gyda'r ymgyrch am wirfoddolwyr i goginio yno. Felly dyma gyfle i son am "Blas Coginio'r Clafdy" - Gorffennaf 23ain.

Diwrnod rhad ac am ddim i rai sy'n awyddus ond ychydig yn ofnus i roi cais i mewn yw hwn. Dyma gyfle i ymuno gyda chogwyr y Clafdy am y dydd i ddysgu paratoi prydiau tri chwrs i ryw 30 fwyta. Amser cinio gallwch fwynhâi ffrwyth eich llafur ac yna dychwelid adre'n hapus. Cyfyng yw'r cyfleoedd felly rhaid bwcio ymlaen llaw - nicky.gilbert@skandavalehispace.org, neu gadewch neges eglur ar **y ffon gyswllt 01559 371222 Welwn ni chi yn y gegin!** Nicky Gilbert Arweinydd Recriwtio – Clafdy Skanda Vale (Ar gael Llun i Iau)

Curad Calon Llanpumsaint - Safleoedd y peiriannau Adfywio

- Tu fas y Neuadd Goffa sa336bz
- Tu fas Tafarn y Railwe sa336bu
- Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri sa336ld
- Tu fas Festri Capel Nebo sa336hn

Cofrestrir y 4 ar y rhwydwaith cenedlaethol sydd ar restr y Gwasanaeth Ambiwlans pe bae galw'n dod. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o le mae'r un agosaf atoch pe bo angen. Nid oes angen cod i'w ddefnyddio a bydd y Gwasanaeth Ambiwlans ar gael i gynghori dros y ffon.

Nid oes angen cwrs hyfforddi oherwydd bydd y peiriant yn gallu eich siarad drwy'r holl broses. Gallwch ymweld a Lifesaver (lifesaver.org.uk) er mwyn bwydo'ch hyder a chael cyngor rhad.

Rhybydd Scam

Yn yr awyrgylch ansicr yma gyda phrisiau ynni'n codi'n sylweddol mae 'na wastad rhywun mas na am eich twyllo. Cadwch eich llygaid yn agored am y scam newydd yma.

Daw E-bost ffug yn honedig o Ofgem, yn honni fod yna ad-daliad yn dod i chi gan gynnwys cyswllt i gael eich arian yn ôl. Aiff hwn a chi i safle fydd am ddwyn eich manylion. Peidiwch gysylltu oherwydd ni fyddai cwmnïau mawr fel Ofgem fyth yn gofyn am eich manylion personol.

Dave

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Y Cae Chwarae)

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol y Pwyllgor uchod ar Nos Lun y 25ain o Ebrill am wyth o'r gloch yn y Neuadd. Diolch i bawb am ddod ac mi 'roedd yn bleser i weld cymaint nad oeddent yn aelodau'r Pwyllgor yno. Etholwyd y canlynol - Cadeirydd Aaron Jones - Is-gadeirydd Sarah Moore - Trysorydd Heledd Jones - Ysgrifennydd Kevin Mably.

Bydd y gwaith o adnewyddu ac ailosod cyfarpar chwarae yn y Cae yn cychwyn yn fuan, diolch i Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa. Golyga hyn fydd yna rannau ar gau ar adegau wrth i'r gwaith fynd ymlaen. Diolchwn ymlaen llaw am eich amynedd bryd hynny. Bydd y maes peldroed a'r cwrt tenis yn dal ar agor gydol yr amser. Felly cadwch lygad ar dudalen Facebook Llanpumsaint am y newyddion diweddaraf.

Fel arfer Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwirfoddolwyr i roi help llaw gyda chynnal a chadw a chodi arian. Os am gysylltu yna gwnewch drwy Ebost parcllanpumsaint park@ gmail.com neu siaradwch ag Aaron Jones 07814157946 neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Mae'r ymarferion yn awr wedi ail ddechrau ers sawl mis bellach a mae'r aelodau yn awr yn edrych ymlaen yn eiddgar at berfformio mewn Seremoni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst.

Mae llawer o bethau ar y gweill o fis Medi ymlaen felly mae'n edrych bod tymor yr Hydref yn mynd i fod yn brysur iawn.

Fel pob Cór arall yr ydym yn chwilio am aelodau newydd ymhob llais felly os oes diddordeb gennych cysylltwch a Gwyn Nicholas ar 01267 253686 neu unrhyw aelod o'r Cór. Gallaf eich sicrhau y cewch chi groeso cynnes

Clwb Cant Llanpumsaint

Llongyfarchiadau i enillwyr Mawrth, Ebrill a Mai - byddwn mewn cysylltiad yn fuan -

Mawrth

1af £20: Hazel Thomas (rhif 105)

Ail £15: Megan Eldred (rhif 18)

3dd £10: Ann Jones (rhif 34)

Ebrill

1af £20: Dee Tozer (rhif 74)

Ail £15: Elsie Jones (rhif 50)

3dd £10: Roz Evans (rhif 68)

Mai

1af £20: Cath Vimpany (rhif 90)

Ail £15: Becka Duffy (rhif 14)

3dd £10: Gwyneth Ayers (rhif 88)

Gellir ymuno a'r Clwb Cant o hyd a chael eich cynnwys yng ngweddill y rhaglen. £12 am ymuno a'r tynnu misol gyda gwobrau ychwanegol adeg y Nadolig. Cysylltwch ag aelodau'r Pwyllgor os am wneud.

Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Braf fu gweld pawb yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol mis diwetha' yn edrych ymlaen yn awchus at y tymor tyfiant. Diolch yn fawr i Sarah am gymerid at y swydd Trysorydd. Trist fu ffarwelio a Ray eleni wrth iddo roi'r twls wrth y bar, gan roi hamdden i'r bysedd gwyrdd yna. Ar ran ein holl aelodau hoffwn ddiolch iddo am ei holl waith caled a'i ymrwymiad i'r Rhandir dros y blynyddoedd a hefyd yr holl gyngor call. Ray, mi welwn eich eisiau ond os fydd angen cyngor arnom gwyddom ble i ddod ar Nos Iau pan fyddwch yn gwlychu'r big gerllaw.

Bu'r tywydd yn berffaith i hau hadau wnaeth ysgogi tipyn o fynd a dod yn y Rhandir. Ddydd a r ôl dydd gwelwn yr hadau'n blaguro tu fas neu dan y twneli, a chyn hir daw'r ffrwyth i'w fedi. Mae gennym rhai lleiniau yn wag, mawr a bach, os oes yna rywun yn awyddus. Cysylltwch â **Rosie ar 07950411536 neu Sarah ar 07811288104.**

Y tair llythyren - PCP



Cafodd nifer fach y profiad o ymweld â safle carthffosiaeth y pentref ym mis Mai. Yn ôl Dŵr Cymru mae gennym y gwasanaeth gorau cyfoes o drafod carthffosiaeth. Ni fu yna unrhyw fethiant yno adeg y ddwy flynedd olaf yma.

Ar wahân i'r deg litr o wastraff tŷ a dŵr o'r wyneb sy'n cyrraedd y tanc cyntaf bob eiliad gall pethau eraill gyrraedd hefyd. Daw crysau T, cewynnau, papur glanhau, cotwm a llawer o fraster, i dagu'r gwasanaeth.

Bydd y broses gyntaf yn gwaredu'r mwyaf a'r gwastraff anodd. Bob wythnos daw tancer 4 mil litr i'r safle i gasglu'r holl fudreddi, i'w droi yn gacen, a honno i'w llosgi i gynhyrchu trydan neu ei defnyddio fel gwrtaith. Mae yna ddau gontractwr sy'n cylchdroi ynghlwm a'r gwasanaeth, a bydd miliynau o facteria wrthi'n glanhau'r dŵr gweddill. Ond gall gormod o can yn gallu amhari ar eu heffeithiolrwydd.. Felly yn y tŷ bach, pisho, caca a phapur yn unig ddylai fynd lawr, a tholiwch ar y can. Adeg cyfnodau sych cadwch y dŵr i fynd er mwyn helpi bethau Diolch i Richard William ac Alex o Ddŵr Cymru am ein gwaho

Clare Bishop

Eglwys y Goedwig - Gweddio a Cherdded

Daeth Eglwys y Goedwig ynghyd y mis yma i Weddio a Cherdded. Yn wreiddiol dyma pryd deuai Cristionogion ynghyd i ofyn am fendith i'w cnydau a'r holl waith fferm. Wedi gorffen gweddio deuai'r plwyf ynghyd i gyd-gerdded eu tiroedd, gorchwyl pwysig mewn cyfnod pan nad oedd yna fapiau tiroedd ar gael.

Gwnaeth rhyw ugain ohonom gyfarfod yn yr Eglwys, pawb mewn sgidiau cadarn a dillad glaw ond yn gobeithio am dywydd sych. Rhyw ddwy filltir o

daith oedd hi a daeth yr haul mas i'n cyfarch. Yn hamddenol gwnaethom sylwi ar faner Wcrein yn yr Ysgol, y felin wlân, ffermydd a cherflun Budha. Cymeron amser i ddiolch am ein hamgylchfyd godidog a phawb sy'n cyfrannu at ein lles, ein rhyddid i fyw a symud fel y mynnwn yn ein pentref prydferth, a sut y dylwn fod yn garedig bob amser.

Daw'r gair Rogation o'r Lladin, a'i ystyr yw gofyn yn dod o Efengyl Luc 11-9 "Gofyn ac fe'i rhoir, ymofyn ac fe'i chanfod". Terfyn y daith fu Tafarn y Railwe lle torrwyd ein syched. Wrth gychwyn 'roedd nifer ohonom yn ddiarth i'n gilydd, pobl o bob oed a phrofiad, ond buan iawn daethom yn gymdogion wrth i bawb fwynhau'r prynhawn.

Cynhelir yr Eglwys Goedwig nesaf ar y 10 fed o Orffennaf. Daw gwybodaeth bellach ar safle'r Eglwys ar Facebook.

Sharon Frewin



Y Daith Weddi

Treialon Cwn Defaid Llwynbedw Llanpumsaint

Ar benwythnos olaf Mis Mai ymgasglodd dros gant o gystadleuwyr i geisio rheoli a llywio pac o ddefaid ar hyd cwrs heriol Llwynbedw. Ar benwythnos heulog daeth cystadleuwyr mor bell a'r Almaen a Lloegr yma ynghyd a'r mwyafrif o Gymru. Cawsom gefnogaeth frwd ac 'roedd yn bleser gweld cymaint o'r ardal yma'n mwynhau'r cystadlu, y golygfeydd a'r lluniaeth.

Ymgyrch godi arian oedd hwn wnaeth gasglu £750 o elw'r gystadleuaeth a 'r bwyd.

Rhoddwyd £450 i Elusen Cancr Tenovus, gyda'r £300 weddill yn mynd at Dreialon Cwn Cenedlaethol Cymru fydd yn cael ei chynnal yn Hayscastle Sir Benfro rhwng y 25ain a'r 27ain o Awst eleni.



Ara' deg amdani! (Marlene Wareham)

Clwb Gwili Chwedeg

Ebrill 25: O'r Gwlân i'r Carped . Diolch i Ian Goddard am ddarlith mor addysgiadol a diddorol gan ddefnyddio deunydd amrywiol. Cawsom i gyd ddarnau o ffwr gyda'r her o adnabod o ble y daethant, gan gynnwys blew ci.

Mai 11eg: Mwynhawyd ein taith i Ddinbych-y-pysgod wrth ymlwybro drwy nifer o siopau, ymweld â'r traeth a'r ymborth yn y tafarnau lleol. Diolch i Lety Cynin yn Sanclêr am De mor flasus i ddiweddu'r diwrnod.

Mai 23ain: RNLI. Diolch i Robert Owen am ein tywys drwy hanes yr RNLI. Gwahoddwyd un o'n haelodau i wisgo'r dillad diogelwch, ond anodd fu hi oherwydd ei bod yn rhy fach.
Rhaglen y Dyfodol –

Mehefin 15fed: Ymweld ag Ysbyty a chapel Eidalaidd y carcharorion rhyfel. Cinio ym Mharc Bywyd Gwylt Cilgerran ac yna bwyd yn y Ffostrasol Arms ar y ffordd 'nol.

Mehefin 27ain: Hybarch Dorian Davies Archddiacon Caerfyrddin- Arddangosfa Flodau

Gorffennaf 25ain: Graham Williams – Therapi Cwn

Awst 17eg: Taith ar Reilffordd Fynyddig Brycheiniog ac i'r Ganolfan Ymwelwyr

Awst 27ain: Peter Huws Griffiths – Pwnc yw drefnu.

Daw gwybodaeth bellach wrth yr ysgrifenyddes **Val Giles 01267 281194**

Man geni Addysg Uwch yng Nhymru

Mae dau canmlwyddiant Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn nodi gosod y garreg sylfaen ar gyfer Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan gan Yr Esgob Thomas Burgess ar y 12ed o Awst 1822.

O'r hadau a heuwyd yn Llambled dros dwy ganrif yn ol, mae'r Brifysgol wedi parhau i wasanaethu Cymru ac wedi tyfu i fod yn Brifysgol aml-gampws, sector deuol sy'n darparu rhaglenni galwedigaethol berthnasol mewn partneriaeth a chyflogwyr.

Mae'r campysau yn Llambled, Caerfyrddin ag Abertawe gyda'r rhai yn Birmingham a Llundain ac hefyd Coleg Sir Gar a Choleg Ceredigion yn nodedig yn eu cynnig a'u cymeriad academiaidd ac wedi esblygu i ddiwallu anghenion eu cymunedau. Maent yn darparu mynediad i addysg bellach ac uwch i bobl o bob cefndir ac yn ymateb i anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eu rhanbarthau er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Wrth ddathlu sylfaen y Brifysgol, mae ei hesblygiad a'i chenhadaeth barhaus o drawsnewid addysg a thrawsnewid bywydau mor berthnasol heddiw ac yr oedd 200 mlynedd yn ol.

Fe fydd gorymdaith i ddathlu yng Nghaerfyrddin ar y 17eg o Fehefin ac hefyd yn Llambled ar diwrnod dathlu'r 200 mlynedd, sef y 12ed o Awst 2022. Dewch i gefnogi eich Prifysgol lleol wrth iddi ddathlu cyrhaeddiad carreg filltir holl bwysig yn ei hanes.

Am rhagor o fanylion gweler www.uwtsd.ac.uk

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Weithiau bydd Dewinio yn digwydd pellter oddi wrth le chwilir am yr elfen guddiedig gan ddefnyddio pendil a map. Dyma beth ddefnyddir i geisio canfod unigolion sydd ar goll neu olion archeolegol. Bydd y dewiniwr yn dal y pendil wrth ben ardaloedd y map, gan ofyn bob tro a yw'r person colledig neu'r crair yno, gan obeithio cyrraedd y man cywir.

Ar ddydd Sul 22ain o Fai siaradodd Grace ac Andrew Edgar sut wnaethant ddewinio gwahanol ardaloedd o Gaerdydd. Rhoddwyd map bychan i bob aelod gael ymarfer. Gwelwyd llawer o gynnwrf pendil yn ardal y dociau fu unwaith yn brysur wrth i'r llongau fasnachu glo a llawer o gynnyrch arall. Yn anffodus nid oedd y map bychan yn cynnwys Stadiwm y Mileniwm, fyddai siŵr o fod wedi creu cryn gynnwrf. I'r rhai sydd yn diddori mewn dramâu troseddol, efallai i chi weld yr arolygwr Grace yn defnyddio map deninio er mwyn canfod priodfab colledig. Os ydych am ddysgu mwy am Ddewinio dewch i'n cyfarfodydd y Neuadd Bronwydd – cwrdd am 1.45 yp i ddechrau am 2 o'r gloch.

Sul 26ain Mehefin - Aromatherapi

Sul 24ain Gorffennaf - Awdur a siaradwr - Rose Broadstock - Cymrogliffics; Arweiniad at ddarllen Hieroglifficau'r Eifftwyr drwy gyfrwng y Gymraeg Cyfarfod yw gadarnhau

Awst - Dim cyfarfod

Ymddiheuriad! Fel arfer trefnir ein siaradwyr flwyddyn ymlaen llaw, ond oherwydd Covid, y cyfnod cloi a chostau teithio, anoddach yw hi ddod o hyd i siaradwyr. Felly os gwyddoch am rywun allai siarad ar bwnc perthnasol i ddewinio cysylltwch â mi (manylion isod) . Gallwn drefnu rhywbeth gyda chymorth ein haelodau.

£15 am ymaelodi am flwyddyn ond £5 y cyfarfod wedi hynny, ac fe fydd yna gwpaned a bisgedi i'r fargen. £7 y tro os nad ydych yn aelod a hynny am ddau gyfarfod. 'Does dim angen cyfarpar jyst trowch lan. Efallai bydd gwisgo mwgwd a chadw pellter yn ofynnol o hyd os nad oes cyflwr meddygol yn eich eithrio. Gwyliwch ein gwefan -

<<http://westwalesdowsers.org.uk>> neu ffoniwch **Sandy 01267 253547**

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Mehefin a Gorffennaf 2022

Mehefin 26 2022

Cymundeb Undebol am 2.00y.p. yn Ffynnonhenri, Parch Huw George

Gorffennaf 17 2022

Gwasanaeth am 2.00y.p. Manylion pellach i ddilyn

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies Trysorydd ar 01267 2534418, neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Neuadd Goffa Llanpumsaint and Ffynnonhenri Memorial Hall

Llogi'r Neuadd: Er mwyn llogi'r Neuadd a wnewch chi gysylltu ag Ann trwy e-bost llanpumsainthallbooking@gmail.com neu ar 01267 253028 a gadael neges iddi.

Brics Codi Arian: A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â **Catrin Eldred ar 07772235243**.

Digwyddiadau i ddod: *Robbie Williams Noson Tribute yn 22 mis Hydref.*

Village Memorial Hall: Hiring Charges

(all rates per hour unless noted otherwise)

Main Hall Weekdays £8

Fridays & Weekends £10

Main Hall & Kitchen Weekdays £10

Fridays & Weekends £12

Either Meeting Room Any day £5

Either Meeting Room & Kitchen Any day £7

Funerals with Kitchen & Crockery Any day £40 standard charge

Additional facilities: Sound and light system, projector and screen, electric piano, stage and crockery are an £10 each per booking. The technical equipment will only be available for large events.

Daith Dractorau

Trefnodd Brian Thomas ac Emyr Jones, sy'n aelodau yng Nghlwb Hen Dractorau'r Cwm Daith Dractorau ar yr 2il o Fai a welodd 107 dractor, a oedd yn gymysgedd o hen dractorau, dractorau clasuron a thractorau modern, yn ymgymryd ar siwrnai o'r Cwm yn Abernant, tuag at Lanpumsaint, trwy Cynwyl Elfed a Ffynnonhenri. Aethant ymlaen yna i Frechfa am ginio, cyn teithio trwy Horeb, tuag at Peniel, trwy Bronwydd ac yna yn ôl i Abernant. Fel clwb, hoffem ddiolch i bob tractor wnaeth gymryd rhan ac i bawb ar hyd y siwrnai am ein helpu i godi dros £6,000 tuag at ddwy elusen bwysig iawn. Mae'r arian a godwyd yn cael ei rhannu rhwng Ward Padarn, Ysbyty Glangwili ac Uned Gofal Dwys, Ysbyty Morriston. Diolch yn fawr i bawb oedd yn rhan o'r daith.

Ceris Thomas



Cylch Meithrin Bronwydd



Blodau'r haul a moron (Cylch Meithrin Bronwydd)

Cyn y Pasg, cynhaliwyd Helfa Wyau ym Mharc y Dref. Roedd yn gyfle i ddweud hwyl fawr a phob lwc i 6 o blant a oedd yn ein gadael i fynychu'r ysgol gynradd. Roedd yn ddiwedd cyfnod gyda rhai o'r teuluoedd wedi bod yn rhan o'r Cylch ers deng mlynedd.

Dychwelon i'r Cylch ar y 25ain o Ebrill ar gyfer tymor cyntaf yr Haf. Braf yw gweld ein grwp bach presennol yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu a magu hyder.

Y tymor hwn rydym yn ail-drefnu ardaloedd yr ystafell er mwyn paratoi y Cylch ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru sydd i ddechrau ym mis Medi. Mae'r Cwricwlwm yn pwysleisio ar bump llwybr datblygu sef- Perthyn; Cyfathrebu; Archwilio; Datblygiad Corfforol; Lles. Byddwn yn ceisio sicrhau bod darpariaeth amrywiol gyda ni ar gyfer y plant sydd yn bodloni eu diddordebau yn ogystal â chefnogi'r dysgu. Y tymor hwn mae'r plant wedi mwynhau plannu blodau haul a dysgu am yr hyn sydd angen i blanhigion i dyfu.

Mae llefydd ar gael yn y Cylch nawr ar gyfer plant 2-3 oed a rydym ar agor amser tymor o Ddydd Mawrth i Ddydd Gwener 9:15yb- 12.00 hd.

Mae Ti a Fi ar Ddydd Gwener amser tymor o 10.00yb tan 12.00hd. Croeso i rhieni a phlant bach.

Manylion Cyswllt: Verona (Arweinydd) 07929431652

cylchmeithrinbronwydd@gmail.com

Eglwysi Llanpumsaint, Bronwydd a Llanllawddog – Yr Eglwys yng Nghymru

Gwasanaethau pob Sul

9 30 yb Boreol Weddi Zoom – Manylion gyda'r Parch Gaynor

11.00 yb Celynin Bronwydd a Llanllawddog

2.00 yp Llanpumsaint

Dydd Mawrth – Y Caffi Bach – Eglwys Llanpumsaint 11.30 hyd 2.30

Chwarae gyda Duw - I gychwyn 7fed Mehefin 4.30 hyd 5.30. yn Eglwys Llanpumsaint - Amser storïau, creffttau, chwarae a lluniaeth at chwaeth pob oedran - yn arbennig o addas i blant ysgol gyda'u rhieni neu warchodwyr.

Dydd Mercher – 9.00 yb Boreol Weddi – Manylion gyda'r Parch Gaynor.

Dydd Iau - Cylch Ieuenctid Dot i blant dros ddeg oed

Dilynwch ni ar Facebook am y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau a digwyddiadau.

<https://www.facebook.com/llanpumsaintbronwyddandllanllawddogchurches>

Peth o hanes Tafarn y Railwe

Nawr fod ein tafarn lleol wedi ail-agor wedi hir ddisgwyl mae'n amser edrych ar ychydig o'r cefndir amrywiol. Penderfynodd tad-cu Mali Post, sef Tomos Ifans, gorsaf feistr craff Llanpumsaint iddi fod yn syniad da i adeiladu tafarn gerllaw. Ond er iddo wisgo tlws yn dathlu ei ddeg mlynedd ar hugain yn ei swydd, penderfynodd y Great Western Railway nad oeddent yn hapus i weld un o'u swyddogion yn gwerthu cwrw. Bu Tomos Ifans yn ddigon call i adeiladu Swyddfa Bost llewyrchus drws nesa a safodd yn y teulu hyd y ganrif bresennol. Gosododd ei ferch y tu ôl i'r Bar, ond 'roedd hi'n casáu'r swydd, felly gwerthwyd y Railwe i gwmni Bragdy Bwcle. Daeth Hannah Jones o Geredigion yno i redeg y lle, ond adeg y Rhyfel Gyntaf. Mary Thomas sydd yno. Erbyn yr Ail Ryfel Byd gwelwyd brawd a chwaer hynod o liwgar yn y Railwe. Ar wahân i dynnu cwrw, Kate oedd organyddes Eglwys Llanpumsaint, a rhaid bod hynny wedi creu cryn drafod ymysg capelwyr yr ardal oedd mor ffyrnig eu gwrthwynebiad i'r ddiod gadarn. Swydd ei brawd John oedd carto glo i'r ardal gyda'i gasseg gall Poli, oedd bob bore yn camu lan i bwysu'r glo ger yr orsaf ei hunan bach. Pan glywodd Emlyn Lewis y ficer newydd fod yna farwolaeth yn y Railwe yn 1945, prysurodd lan i gydymdeimlo. Deallodd wedyn gyda chryn ryddhad fod ei organyddes yn saff ac mae Poli oedd wedi darfod.

Tawel oedd hi tu fewn oherwydd mewn oes o dlodi ambell i ffermwr gyda cheiniog sbâr oedd yn barod i dywylli'r drws gan osgoi cenfigen llwyrwmwrthodwyr y capeli brwd. Ond fydd na arian sbâr weithiau gan botsiws pysgod profiadol fel Sam Glanyrafon ac Emrys y Co-op. Yna dyma chwildro'r chwedegau yn cyrraedd, gyda chenhedlaeth ifanc rydd, ag arian yn eu pocedi yn benthycu modur y teulu i grwydro'r wlad a gwario. Daeth dartiau'n gem boblogaidd iawn i lenwi tafarnau oedd erbyn hyn yn datblygu'n ganolfannau cymdeithasol poblogaidd. Dyma'r awyrgylch groesawgar pan gyrhaeddodd Glyn a Mari Rees o Geredigion yn 1978 a datblygodd y bwrlwm dros y blynyddoedd. Pan ddaeth Tony ac Aloma i aros noson yr oedd bron mwy yn y tafarn wedyn na fu yn y Neuadd cynt. Mae'r ddau fab Twm a Hedydd yn dal yma fel cwsmeriaid. Yna gwelwyd Gwilym yn camu tu ôl i reoli'r Bar a phawb arall, gyda'i ddawn unigryw i dwyllo pawb mewn i rownd fawr a'u cadw yno am oriau di-ben-draw. Wrth i Bob Henfryn a Jac Pantglas wacau eu pocedi hoff ddywediad Gwilym bob tro oedd "*Os rhywun arall biti fod yn wag?*". Dyma gyfnod o gymeriadau lliwgar a diddorol, wrth i Gwyn Deri, Emrys Pwmp a Defi John Llath rhoi'r byd yn ei le bob prynhawn. Gyda'r hwyr gwelwyd y drygionus Handel, Gwilym dewin y bwrdd dartie, a chlonc Dai Twm yn lliwio'r awyrgylch. Dyma gyfnod yr yfed mawr!

Newid eto a ninnau i mewn i'r ganrif bresennol pan welwyd Meic a Jen yn datblygu'r lle fel bwyty safonol a datblygu ardal foethus tu fas i fwynhau'r heulwen. Cyn hir 'roedden yn cyrraedd o bell ac agos i flasau'r bwyd moethus, gyda Chlwb Cinio lleol a nifer o gymdeithasau lleol yn awchu am y fwydlen. Wedyn daeth tymor anodd y cofid i ymharri ay gynlluniau Wayne a Liz, ond nawr dyma gychwyn ar gyfnod newydd eto.

Arwyn 2022